



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Adroddiad Blynyddol Annual Report 2022-2023



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAG

Dysgu
Learn

Lefelau dysgu'r sector Dysgu Cymraeg

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gael ar wahanol lefelau, sy'n cyd-fynd â lefelau dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop. Mae'r pwyslais ar bob lefel ar siarad a mwynhau'r iaith.

Enw'r lefel	Disgrifiad	Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop	Isafswm oriau cyswllt a argymhellir
Mynediad	Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno'r presennol, y gorffennol a'r dyfodol.	A1	120
Sylfaen	Mae'r lefel hon yn gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Bydd cyfleoedd i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau.	A2	120
Canolradd	Mae'r lefel hon yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando.	B1	120
Uwch	Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando. Meithrin siaradwyr hyderus yw'r prif nod.	B2	360
Gloywi	Mae'r cyrsiau Gloywi, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth. Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau ymhellach a helpu i fagu hyder.		

Learning levels in the Learn Welsh Sector

Learn Welsh courses are available at different levels, which correspond to the learning levels of the Common European Framework. The emphasis on all levels is on speaking and enjoying the language.

Name of level	Description	Learning levels of the Common European Framework	Recommended minimum number of contact hours
Entry	Courses for beginners, introducing the present, past and future tenses.	A1	120
Foundation	This level requires some experience of Welsh. There will be opportunities to discuss everyday subjects such as family and friends, work and interests.	A2	120
Intermediate	This level is suitable for those who are familiar with the main patterns of Welsh. There are opportunities to develop conversational skills, with a little more writing, reading and listening.	B1	120
Advanced	Learners will discuss all kinds of subjects and themes. Learners also develop their reading, writing and listening skills. The main aim is to enable learners to become confident speakers.	B2	360
Gloywi (Proficiency)	Proficiency courses, suitable for fluent learners and first language speakers, are tailored to the needs of the class. The aim in general is to further develop skills and build confidence.		

» Cynnwys



Lefelau dysgu



Amdanom ni



Darparwyr cyrsiau



Gair o groeso



Rhagair



Dysgwyr sy'n ysbrydoli



Tiwtoriaid ysbrydoledig



Denu



Dysgu



Defnyddio



Cynllunio Strategol



Cysylltwch â ni

» Contents



Learning levels



About us



Course providers



A word of welcome



Foreword



Inspirational learners



Inspirational tutors



Attract



Teach



Use



Strategic Planning



Contact us

Amdanom ni

Cefndir

Creu siaradwyr Cymraeg newydd yw nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a thrwy hynny, gyfrannu at wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg, o ddatblygu cyrsiau ac adnoddau digidol i hyfforddi tiwtoriaid a marchnata.

Mae'r Llywodraeth wedi gosod y deilliannau craidd canlynol i'r Ganolfan:


- ▶▶ Bod yn sefydliad gweledol sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r sector Dysgu Cymraeg.
- ▶▶ Cynnig arweiniad i'r darparwyr cyrsiau Dysgu Cymraeg.
- ▶▶ Codi safonau dysgu ac addysgu'r sector Dysgu Cymraeg.
- ▶▶ Datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon, a chynhyrchu adnoddau sy'n addas i bob mathau o ddysgwyr.

Cynllun Strategol

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan yn gosod tri phrif amcan, sef:

- ▶▶ **Denu:** Agor drysau i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i'w dysgu.
- ▶▶ **Dysgu:** Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol ac o ansawdd uchel.
- ▶▶ **Defnyddio:** Cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd.

Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion hynny.



About us

Background

The aim of the National Centre for Learning Welsh is to create new Welsh speakers, supporting the Welsh Government's ambition of reaching a million Welsh speakers by 2050.

The Centre is responsible for all aspects of the Learn Welsh sector - from developing courses and digital resources to training for tutors and marketing.

The Government has set the following core outcomes for the Centre:

- ▶▶ Be a visible institution setting a national strategic direction for the Learn Welsh sector.
- ▶▶ Provide leadership for Learn Welsh course providers.
- ▶▶ Raise standards in teaching and learning in the Learn Welsh sector.
- ▶▶ Develop a high-quality, appropriate and engaging national curriculum, and produce resources suitable for a range of learners.

Strategic Plan

The Centre's Strategic Plan sets out three main objectives:

- ▶▶ **Attract:** Open doors to learning Welsh and attract more learners.
- ▶▶ **Teach:** Provide a variety of high-quality learning opportunities.
- ▶▶ **Use:** Support the use of Welsh by learners in their everyday lives.

The Annual Report reports on progress against these objectives.

Darparwyr cyrsiau y Ganolfan

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gweithio gydag 11 darparwr, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan.

Darparwr Dysgu Cymraeg	Cyflenwr	Ardaloedd Llywodraeth Leol
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	Ceredigion, Powys, Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Sir Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	Cenedlaethol

The Centre's course providers

The National Centre for Learning Welsh works with 11 providers, who deliver courses on its behalf.

Learn Welsh Provider	Organisation	Local Authority Areas
Learn Welsh North West	Bangor University	Gwynedd, Anglesey, Conwy
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Denbighshire, Flintshire, Wrexham
Learn Welsh Ceredigion – Powys – Carmarthenshire	Aberystwyth University	Ceredigion, Powys, Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	Swansea, Neath Port Talbot
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	Pembrokeshire
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	Monmouthshire, Newport, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerphilly
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan Council	Vale of Glamorgan
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	Cardiff
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Bridgend
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Welsh Language and Heritage Centre	National

Gair o groeso

Yr Hybarch Randolph Thomas

Cadeirydd Bwrdd Cwmni y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cynyddodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei gwasanaethau i ddysgwyr yn ystod y flwyddyn, gyda phartneriaethau cyffrous sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bobl fwynhau dysgu Cymraeg.

Lluniwyd rhaglenni dysgu wedi'u teilwra ar gyfer sefydliadau a sectorau amrywiol, gan gynnwys byd y campau, a chyhoeddwyd cyrsiau ac adnoddau 'Croeso i Bawb', sydd ar gael trwy gyfrwng Wcreineg, Arabeg Syria, Farsi, Pashto, Dari a Chantoneg.

Bu newidiadau i arweinyddiaeth y Ganolfan hefyd, wrth i ni ffarwelio ag Efa Gruffudd Jones, a benodwyd yn Gomisiynydd y Gymraeg, a chrosawu Prif Weithredwr newydd, Dona Lewis.

Penodwyd dau gyfarwyddwr newydd, Lowri Bunford-Jones, Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu, a Meinir Ebbsworth, Cyfarwyddwr Strategol, a chrosawyd Cadeirydd newydd i'n Bwrdd Ymgynghorol, Alun Jones.

Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd nesaf, byddwn yn parhau i geisio ffyrdd creadigol o ateb y galw am wasanaethau Dysgu Cymraeg, ac o gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Diolch yn fawr i'r tîm canolog, dan arweiniad Dona, ac i'n darparwyr am gynnal gwasanaethau gwerthfawr ar gyfer ein dysgwyr, boed wyneb-yn-wyneb, yn rhithiol neu ar-lein.

Diolch, hefyd, i fy nghyd-aelodau o Fwrdd y Cwmni am eu cefnogaeth barhaus.

"...byddwn yn parhau i geisio ffyrdd creadigol o ateb y galw am wasanaethau Dysgu Cymraeg."

"...we will continue to explore creative ways of meeting the demand for Learn Welsh services."

A word of welcome

The Venerable Randolph Thomas

Chair of the Board of the National Centre for Learning Welsh

The National Centre for Learning Welsh increased its services for learners during the year, with exciting partnerships creating new opportunities for people to enjoy learning Welsh.

Bespoke learning programmes were developed for different organisations and sectors, including the sporting world. Our 'Croeso i Bawb/ Everyone is Welcome' courses and resources - available through the medium of Ukrainian, Syrian Arabic, Farsi, Pashto, Dari and Cantonese - were also launched.

There were changes to the Centre's leadership team, as we said farewell to Efa Gruffudd Jones, who's been appointed Welsh Language Commissioner, and welcomed a new Chief Executive, Dona Lewis.

Two new directors were appointed, Lowri Bunford-Jones, Director of Planning and Development, and Meinir Ebbsworth, Director of Strategy, and we welcomed Alun Jones as the new Chair of our Advisory Board.

As we look ahead to the next academic year, we will continue to explore creative ways of meeting the demand for Learn Welsh services, and of supporting the Welsh Government's ambition of reaching a million Welsh speakers by 2050.

Many thanks to the central team, under Dona's leadership, and to our providers for delivering valuable services to our learners, whether face-to-face, virtually or online.

Thanks, also, to my fellow members on the Board of Directors for their continuing support.

Rhagair

Dona Lewis

Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu
Cymraeg Genedlaethol

Mae'r bwrlwm yn y sector Dysgu Cymraeg i'w weld yn glir - yn y miloedd sy'n mwynhau dysgu, ym mrwdfrydedd ein tiwtoriaid, ac yn y partneriaethau blaengar i ddenu cynulleidfaoedd newydd - ac mae wedi bod yn bleser ac yn fraith i gamu i fy rôl newydd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.


Y dysgwyr sy'n dod yn gyntaf, ac mae mireinio, teilwra a chyflwyno cyrsiau ac adnoddau newydd yn greiddiol i'n gwaith o greu cyfleoedd amrywiol i bobl ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg.

Mae'r adborth ardderchog i'n holiadur blynyddol yn dangos bod y pwyslais yma yn dwyn ffrwyth. Fe ymatebodd bron i 5,000 o ddysgwyr, gyda 99% yn dweud eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg, a 99% yn cytuno bod y tiwtoriaid yn dysgu'r cwrs yn effeithiol.

Mae'n dysgwyr hefyd yn canmol ysbryd croesawgar a chefnogol y sector - ysbryd oedd ar waith yng nghanol holl weithgaredd Maes D Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Dan ni'n edrych ymlaen yn barod at Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024, a byddwn yn buddsoddi yn yr ardal gyda mentrau i ddenu siaradwyr newydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ganolfan wedi bod yn falch o gyhoeddi cynlluniau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl ifanc, a'r byd chwaraeon.

"Mae'r bwrlwm yn y sector Dysgu Cymraeg i'w weld yn glir."



"The passion and enthusiasm of the Learn Welsh sector is clear for all to see."

Foreword

Dona Lewis

Chief Executive of the National Centre
for Learning Welsh

The passion and enthusiasm of the Learn Welsh sector is clear for all to see - in the thousands who love learning, in our inspirational tutors, and in the ambitious partnerships which attract different audiences - and it's a pleasure and a privilege to step into my new role with the National Centre for Learning Welsh.

Our learners are central to our work, and adapting, refining and regularly introducing new courses and resources is part of our ethos to create fresh opportunities for people to learn, use and enjoy Welsh.

The excellent feedback to our annual questionnaire shows this emphasis is working. Almost 5,000 learners responded, with 99% saying they enjoyed learning Welsh, and 99% agreed that the tutors taught the course effectively.

Our learners also praise the sector's welcoming and supportive spirit - which was very much at work at the learners' village, Maes D, at the Llŷn ac Eifionydd Eisteddfod. We're already looking forward to the 2024 Rhondda Cynon Taf Eisteddfod, and will be investing in the area with initiatives to attract new speakers.

Over the past year, the Centre has been pleased to introduce programmes for specific audiences, including refugees and asylum seekers, young people, and the sporting world.

Lluniwyd partneriaethau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru, yr Urdd, a Mudiad Meithrin, a chyhoeddodd y Ganolfan y byddai'n gweithio gydag Undeb Rygbi Cymru i gefnogi eu staff i ddysgu Cymraeg. Law yn llaw â'r cynlluniau hyn, mae'r Ganolfan wedi parhau i gydweithio gyda sefydliadau cenedlaethol eraill, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Cyngor Llyfrau Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, BBC Radio Cymru ac S4C.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, dan ni'n croesawu cyfleoedd pellach i rannu ein harbenigedd a'n profiadau o addysgu'r Gymraeg, a hynny mewn partneriaeth gydag eraill.

Hoffwn ddiolch o galon i'm rhagflaenydd Efa Gruffudd Jones, staff y Ganolfan a gweithlu'r sector yn gyfan, a dymuno'n dda i bob un o'n dysgwyr.

New partnerships were formed with the Football Association of Wales, the Urdd, and Mudiad Meithrin, and the Centre announced plans to work with the Welsh Rugby Union to deliver Welsh language training to its staff. Alongside these plans, the Centre continued to work with other national organisations, including the Welsh Language Commissioner, Books Council of Wales, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, BBC Radio Cymru and S4C.

As we look to the future, we welcome further opportunities to share our expertise and experiences of teaching Welsh, in partnership with others.

I would like to say a huge thank you to my predecessor Efa Gruffudd Jones, the Centre's staff and the entire sector workforce. I would also like to wish all our learners well.



Dysgwyr yn mwynhau Cwrs Cymraeg i'r Teulu Llangrannog, a Chwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.
Learners enjoying the Welsh for the Family Weekend in Llangrannog, and the Learn Welsh Cardiff Summer Course.

Dysgwyr sy'n ysbrydoli

Fe gefnogodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol nifer o wobrau ar gyfer dysgwyr a thiwtoriaid:

Dysgwr y Flwyddyn

Llongyfarchiadau enfawr i Alison Cairns, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023.

Mae Alison yn wreiddiol o Perthshire yn yr Alban ond mae hi bellach yn byw ar fferm yn Ynys Môn. Mae hi'n byw gyda'i phartner Siôn a'u saith o blant.

Mae hi'n mwynhau marchogaeth a chic-bocsio ac mae hi'n gneifiwr profiadol sydd wedi ennill nifer o wobrau dros y blynyddoedd.

Cymraeg yw iaith y teulu, ac mae Alison, sy'n gweithio yn y maes gofal, hefyd yn sylweddoli pa mor bwysig yw siarad Cymraeg â chleifion.

Roedd hi'n diolch i Siôn, ei phlant a'r gymuned am ei helpu i ddysgu Cymraeg.

"Cymraeg yw iaith y teulu, ac mae Alison, sy'n gweithio yn y maes gofal, hefyd yn sylweddoli pa mor bwysig yw siarad Cymraeg â chleifion."

"Welsh is the language of the home, and Alison, who works as a care worker, also realises how important it is to speak Welsh with patients."

Inspirational learners

The National Centre for Learning Welsh supported a number of awards for learners and tutors:

Welsh Learner of the Year

Huge congratulations to Alison Cairns, winner of the Learner of the Year competition at the Llŷn ac Eifionydd National Eisteddfod 2023.

Alison is originally from Perthshire in Scotland but now lives on a farm in Anglesey with her partner Siôn and their seven children.

She enjoys horse riding and kickboxing and is an experienced shearer who has won several awards over the years.

Welsh is the language of the home, and Alison, who works as a care worker, also realises how important it is to speak Welsh with patients.

Alison thanked Siôn, her children and the community for helping her learn Welsh.

Dysgwyr sy'n ysbrydoli

Enillydd Medal y Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd


Daw enillydd Medal y Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2023, Gwilym Morgan, o Gaerdydd. Mae'n astudio ar gyfer ei Lefel A yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf.

Dechreuodd Gwilym ddysgu Cymraeg yn yr ysgol uwchradd ac mae'n gobeithio mynd i'r brifysgol i astudio Cymraeg a Ffrangeg.

Dyweddodd Gwilym: "Penderfynais ddysgu Cymraeg achos dw i'n caru'r iaith. Cymraeg yw iaith ein gwlad ac mae'n rhan o'n diwylliant. Mae hefyd yn rhan allweddol o bwy ydw i."

Yn ôl Pennaeth y Gymraeg yr ysgol, Miss Rebecca Morgan: "Nid yn unig mae Gwilym yn pigo iaith i fyny'n rhwydd, mae hefyd yn fodlon rhoi cynnig ar siarad."

"Ti ddim yn gallu dysgu rhywun i ddwlu ar iaith fel mae e'n dwlu arni - mae hynny'n rhywbeth naturiol sydd ynddo."



"I decided to learn Welsh because I love the language."

"Penderfynais ddysgu Cymraeg achos dw i'n caru'r iaith."

Urdd Gobaith Cymru

Inspirational learners

Urdd Eisteddfod Welsh Learners' Medal

Gwilym Morgan won the Welsh Learners' Medal at the National Urdd Eisteddfod. He is a pupil at Bishop of Llandaff High School, Cardiff, studying for his A Levels.

Gwilym started learning Welsh in secondary school and hopes to study Welsh and French at university.

Gwilym said: "I decided to learn Welsh because I love the language. Welsh is the language of our country and is part of our culture. It is also an essential part of who I am."

Miss Rebecca Morgan, Head of Welsh at the school added: "Not only does Gwilym pick up the language easily, he's also willing to have a go at speaking Welsh."

"You can't teach someone to love a language the way Gwilym does - it's something natural in him."

Dysgwyr sy'n ysbrydoli

Enillydd Categori 'Dechrau Arni' gwobrau Ysbrydoli!


Steven Wright o Awstralia oedd enillydd categori 'Dechrau Arni - Dysgu Cymraeg' yng ngwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion 2023.

Cynllunydd ffasiwn oedd Steven cyn iddo ddechrau ei swydd yn darlithio mewn ffasiwn ym Mhrifysgol De Cymru. Bellach mae'n Bennaeth Pwnc ar gyfer Ffasiwn, Marchnata a Ffotograffiaeth.

Dyweddodd Steven: "Fe symudais i Gymru pan oedd y Deyrnas Unedig yn gadael Ewrop, a doeddwn i ddim yn teimlo mod i'n perthyn i ddechrau. Ond pan ddaeth y cyfnod clo, wnes i benderfynu mod i eisiau dysgu mwy am hanes Cymru, a'r Gymraeg.

"Tua'r un adeg hefyd wnes i gwrdd â fy mhartner, sy'n siarad Cymraeg ac ar dân dros yr iaith. Felly wnes i gofrestru ar gyfer cwrs ar-lein gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg.

"Mae dysgu Cymraeg wedi fy helpu i ddeall y bobl, y diwylliant a'r wlad yn llawer gwell. Dw i'n teimlo'n falch iawn o gael byw yng Nghymru."



"Mae dysgu Cymraeg wedi fy helpu i ddeall y bobl, y diwylliant a'r wlad yn llawer gwell."



"Learning Welsh has helped me understand the people, the culture and the country a lot better."

Inspirational learners

Winner of the Inspire! Awards 'Starting Out' Category

Steven Wright from Australia was the winner of the 'Starting Out - Welsh Beginner' category at the Adult Learning Inspire! Awards 2023.

Steven was a fashion designer before he started work as a fashion lecturer at the University of South Wales. He is now the Head of Subject for Fashion, Marketing and Photography.

Steven said: "I moved to Wales just as the UK came out of Europe, and at first, I felt like I didn't belong. But when we entered the first lockdown, I decided to learn more about the history of Wales and the language too.

"About the same time, I met my partner who's a Welsh speaker and a huge champion of the language. So I signed up to do an online course with Learn Welsh Glamorgan.

"Learning Welsh has helped me understand the people, the culture and the country a lot better. I feel immensely proud to live in Wales."

Tiwtoriaid ysbrydoledig

Felicity Roberts

Mae Felicity Roberts yn diwtor Cymraeg ers dros 50 mlynedd a hi enillodd wobwr Ysbrydoli! gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn ddiweddar.

Mae hi wedi dysgu Cymraeg ar bob lefel yn ystod ei gyrfa - o lefel Mynediad i lefel Gloywi. Mae hi'n teimlo fod cael hwyl a chwerthin yn elfennau pwysig iawn yn ei gwersi.

Pan yn trafod ei dysgwyr dros y blynyddoedd, dywedodd Felicity: "Y rhai sy'n gwneud orau yw'r rhai sy'n cofleidio'r iaith, ac yn ei throi yn iaith y galon. Y rhai sy'n mynd â'r Gymraeg yr ail a'r drydedd filltir ac yn dod â hi i'r cartref.

"Efallai nad ydy'r ynganiad yn berffaith, a'i bod yn cymryd amser iddynt gofio geirfa - ond yn y pen draw, mae cariad at yr iaith a dyfalbarhad yn mynd i fynd â nhw yn bell.

"Mae'n bwysig cofio mai ffordd o gyfathrebu ydy iaith. Yn syml, mae iaith yn bont rhwng un person â'r llall."



Inspirational Tutors

Felicity Roberts

Felicity Roberts has over 50 years' experience as a Welsh tutor and won an 'Inspire!' award at the Learning and Work Institute's tutor awards.

Felicity has taught Welsh at all levels during her career - from Entry to Proficiency level. She feels that having fun and laughing are important elements of her lessons.

When discussing her learners over the years, Felicity said: "Those who do best are those who embrace the language, and turn it into a language of the heart. Those who take the extra second and third mile and bring it into the home.

"Perhaps the pronunciation isn't perfect, and it takes time to remember vocabulary - but in the end, love for the language and persistence will take them far.

"It's important to remember that language is a form of communication. Simply put, language is a bridge between one person and another."

Tiwtoriaid ysbrydoledig

Bethan Glyn

Bethan Glyn, tiwtor profiadol fu'n gweithio gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin am dros 15 mlynedd, dderbyniodd Tlws y Tiwtor y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

Meddai Bethan: "Yr hyn sy'n dod â'r pleser mwya i mi ydy gweld datblygiad dysgwyr wrth iddynt ddod yn siaradwyr newydd a mwynhau defnyddio'r iaith yn eu cymuned."

"Nid ar chwarae bach mae meistroliaeth iaith ac mae hi mor bwysig i ni sy'n siaradwyr Cymraeg, gefnogi a rhoi'r hyder i siaradwyr newydd ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd."



Llun o Bethan Glyn ym Maes D yr Eisteddfod.
Bethan Glyn is pictured at the Maes D learners' village at the Eisteddfod.

Inspirational Tutors

Bethan Glyn

Bethan Glyn, an experienced tutor who worked with Learn Welsh North West for 15 years, received the National Centre for Learning Welsh 'Tlws y Tiwtor' tutor award at the Llŷn ac Eifionydd National Eisteddfod.

Bethan said: "What gives me the greatest pleasure is seeing how learners develop into new speakers and enjoy using the Welsh language in their community."

"It takes hard work and commitment to master a language and it's so important that we as Welsh speakers support and give new speakers the confidence to use the language from day to day."

Tiwtoriaid ysbrydoledig

Tiwtoriaid Yfory

Fis Gorffennaf, croesawyd 15 o bobl ifanc i Gaerdydd i ddilyn cynllun Tiwtoriaid Yfory y Ganolfan. Y bwriad oedd annog mwy o bobl ifanc i weithio yn y sector Dysgu Cymraeg, a'u cyflwyno i'r posibilïadau o ddilyn gyrfa yn y byd addysg. Mae tri ohonynt yn rhannu eu hargraffiadau gyda ni:

"Roedd y cwrs yn wych ac mi wnes i lawer o ffrindiau newydd. Mi wnes i hefyd fagu hyder wrth siarad Cymraeg ar ôl treulio sawl blwyddyn yn astudio yn Lloegr. Y peth gorau oedd y sesiwn microddysgu oedd yn brofiad cadarnhaol iawn. Dw i bellach yn gwbl sicr fy mod am ymuno â'r byd addysg rhyw ddydd."

Lucy Hill

"Roedd y cwrs yn cynnig profiad o diwtora yn ogystal â hyfforddiant trylwyr gan arbenigwyr yn eu maes. Mi faswn i'n argymhell y cwrs i unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais flwyddyn nesaf. Dw i'n falch fy mod i wedi cael cyfle i fynychu'r cwrs, a dw i'n edrych ymlaen at ddefnyddio'r sgiliau dw i wedi eu dysgu yn y dyfodol."

Morgan Owen

"Roedd y cyfuniad o wersi ymarferol, gwersi ar ffurf darlith gan westeion diddorol, heb anghofio'r cyfle i arsylwi gwersi yn ddefnyddiol iawn. Mi wnes i ymuno gyda'r cwrs yn chwilfrydig am addysgu, ond gorffen yn frwdfrydig am addysgu."

Non Humphries

"The combination of practical lessons, lectures by interesting speakers, and not forgetting the opportunity to observe lessons was very useful. I joined the course curious about teaching, but I finished it enthusiastic about teaching."

Non Humphries



Llun o Diwtoriaid Yfory gyda Haydn Hughes (canol), darlithydd ar y cwrs.
The Tutors of Tomorrow are pictured with course lecturer, Haydn Hughes (centre).

Inspirational Tutors

Tutors of Tomorrow

In July, 15 young people followed the Centre's 'Tiwtoriaid Yfory/Tutors of Tomorrow' scheme. The aim was to encourage more young people to work in the Learn Welsh sector, and introduce them to the possibilities of a career in education. Three participants share their impressions with us:

"The course was excellent and I made many new friends. I also gained confidence in speaking Welsh after spending several years studying in England. The best thing was the micro teaching session, which was a very positive experience. I am now completely certain that I want to join the world of education one day."

Lucy Hill

"The course offered tutoring experience as well as comprehensive training by experts in their field. I would recommend the course to anyone considering applying next year. I am glad I had the opportunity to follow the course, and I look forward to using the skills I've gained in the future."


Morgan Owen

Denu: Agor drysau i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i'w dysgu

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau trwy gydol y flwyddyn i ddenu pobl i ddysgu Cymraeg, gan sicrhau cyfle i bawb, lle bynnag maen nhw'n byw, a beth bynnag yw eu cefndir, i ddysgu a mwynhau'r Gymraeg.

Attract: Open doors to learning Welsh and attract more learners

The National Centre for Learning Welsh undertakes a range of activities throughout the year to attract people to learn Welsh, ensuring everyone has an opportunity to learn and enjoy the language, wherever they live and whatever their background.



Ymgyrchoedd

Cynhaliwyd ymgyrchoedd marchnata i annog dysgwyr i ddilyn cyrsiau newydd mis Medi a mis Ionawr. Defnyddiwyd dulliau digidol yn helaeth, gyda gweithgareddau ar lefel leol yn cynnwys dulliau hysbysebu traddodiadol. Gweithiodd y Ganolfan gyda dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfleoedd dysgu i'r to iau, a chynhyrchwyd deunyddiau marchnata amrywiol.



Cylchgrawn

Cyhoeddwyd copïau papur a fersiwn ddigidol o'r cylchgrawn blynyddol, Hwyl yr Haf, a dosbarthwyd copïau i'n darparwyr cyrsiau ac i siopau llyfrau Cymraeg. Mae'r cylchgrawn yn gyfle i dynnu sylw at y cyfleoedd i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg, ac i ddathlu llwyddiannau ein dysgwyr.



Campaigns

Marketing campaigns were held to encourage learners to follow new courses starting in September and January. Digital marketing methods were used extensively, with activities at a local level including traditional advertising platforms. The Centre worked with social media influencers to promote learning opportunities to younger people, and various marketing materials were produced.



Magazine

Paper and digital versions of the annual magazine, Hwyl yr Haf, were published, with copies distributed to our course providers and to Welsh bookshops. The magazine is an opportunity to draw attention to the opportunities to learn, use and enjoy the Welsh language, and to celebrate the successes of our learners.



Ysbrydoli eraill

Mae pobl yn dysgu Cymraeg am wahanol resymau, ac mae hanesion diddorol gan bob un o'n dysgwyr – o Katie Miles, gwyddonydd o Brifysgol Aberystwyth, a ddaliodd ati gyda'i Chymraeg yng nghanol ei gwaith maes yn Antartica, i Tom Peeters o Wlad Belg, sydd â'i fryd ar symud i Gymru. Mae'r Ganolfan yn ddiolchgar iddynt am rannu eu straeon, sy'n hyrwyddo'r maes ac yn ysbrydoli eraill i ddysgu Cymraeg.



Katie Miles



Gweithio gyda'n partneriaid

Gweithiodd y Ganolfan gyda llu o sefydliadau i hyrwyddo cyfleoedd Dysgu Cymraeg i gynulleidfaedd eang.

Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Yn ystod gŵyl Gymraeg Caerdydd, Tafwyl, fe gafodd Noel Mooney, Prif Weithredwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru, gyfle i ddefnyddio ei sgiliau Cymraeg yn gyhoeddus am y tro cyntaf, mewn sesiwn holi ac ateb. Mae wedi bod yn dysgu'r iaith ers dechrau 2023, diolch i bartneriaeth rhwng y Gymdeithas a'r Ganolfan. Fel rhan o'r bartneriaeth, mae'r Gymdeithas hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg ymhlith cefnogwyr a staff ar lawr gwlad.

Ein Tîm, Ein Hiaith

Roedd y Ganolfan yn rhan o ymgyrch ddigidol, 'Ein Tîm, Ein Hiaith', wedi'i chefnogi gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru, a Llywodraeth Cymru, i hyrwyddo cyfleoedd Dysgu Cymraeg o gylch Cwpan Pêl-droed y Byd. Cynhaliwyd sesiwn flasu rithiol, a darparwyd llu o adnoddau digidol i gefnogwyr Cymru eu defnyddio wrth gefnogi Cymru yn y bencampwriaeth.



Inspiring others

People learn Welsh for many reasons, and all our learners have interesting stories to tell - from Katie Miles, a scientist from Aberystwyth University, who continued with her Welsh while doing fieldwork in Antarctica, to Tom Peeters from Belgium, who hopes to move to Wales. The Centre is grateful to them all for sharing their stories, which help promote learning Welsh and inspire others to learn.



Noel Mooney yn cael ei holi yn Nhafwyl.
Noel Mooney's Tafwyl interview.



Tom Peeters



Working with our partners

The Centre worked with many organisations to promote opportunities to learn the language to a wide audience.

Football Association of Wales

During Cardiff's Welsh language festival, Tafwyl, Noel Mooney, Chief Executive of the Football Association of Wales (FAW), had the opportunity to speak Welsh in public for the first time in a Q&A session. Mr Mooney has been learning the language since the beginning of 2023, thanks to a partnership between the FAW and the Centre. As part of the partnership, the FAW also promotes opportunities to learn Welsh among staff and supporters at a grass roots level.

Ein Tîm, Ein Hiaith (Our Team, Our Language)

The Centre took part in a digital campaign, 'Ein Tîm, Ein Hiaith', supported by the FAW and Welsh Government, to promote opportunities to learn Welsh around the Football World Cup. A virtual taster session was held, and a host of digital resources were produced for Welsh fans to use when supporting Wales in the championship.





Eisteddfod Genedlaethol

Fe gydweithiodd y Ganolfan â'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Pwyllgor Dysgwyr lleol i drefnu Maes D, y pentref i ddysgwyr, a chystadleuaeth Dysgwyr y Flwyddyn.

Yn 2023, fe ddenwyd 30 o gystaddeuwyr - y nifer uchaf erioed - 40 mlynedd ers i'r wobwr gael ei chynig gyntaf. Llongyfarchiadau enfawr i'r enillydd Alison Cairns, i'r tri arall a gyrhaeddodd y rownd derfynol, Roland Davies, Manuela Niemetscheck, a Tom Trevarthen, ac i bawb a gystadlodd.

Mudiad Meithrin

Cyhoeddwyd Memorandwm Dealltwriaeth newydd rhwng Mudiad Meithrin a'r Ganolfan. Mae'r sefydliadau yn barod yn cydweithio ar brosiectau megis 'Clwb Cwtsh' sy'n cynnig cyfleoedd anffurfiol i rieni a gofawr plant bach i ddechrau dysgu Cymraeg, a chynllun 'Camau', sy'n rhoi hyfforddiant Dysgu Cymraeg i ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

Mae'r Memorandwm yn ffurfioli'r cydweithio, gan greu cyfleoedd pellach i gaffael a throsglwyddo'r Gymraeg.

Ymgyrch Siarad Pobl Ifanc

Yn Eisteddfod yr Urdd, lanswyd ymgyrch Siarad Pobl Ifanc ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg, i helpu tynnu sylw at y cyrsiau i bobl ifanc, sydd ar gael yn rhad ac am ddim. Bu'r ymgyrch yn gyfle, hefyd, i gasglu 'iaith pobl ifanc' - geiriau Cymraeg anffurfiol mae pobl ifanc yn eu defnyddio gyda'i gilydd, y gellir eu rhannu maes o law mewn gwrsi ac adnoddau penodol.

Barn ein dysgwyr

Fe ymatebodd bron i 5,000 o bobl (4,673) i holiadur 'Dweud Eich Dweud' 2022-2023, y nifer uchaf erioed. Mae'r holiadur yn ffordd o ddarganfod barn ein dysgwyr am wahanol agweddau ar ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg, fel ein bod yn gallu parhau i fireinio a chryfhau'r ddarpariaeth. Dyma rai o brif ganfyddiadau'r holiadur:

- ▶▶ Dywedodd 99% o'r ymatebwyr eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg yn fawr neu'n fawr iawn.
- ▶▶ Roedd 99% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y tiwtoriaid yn dysgu'r cwrs yn effeithiol.
- ▶▶ Roedd 88% yn dweud bod yr adnoddau dysgu digidol ar dysgucymraeg.cymru yn dda neu'n dda iawn.
- ▶▶ Roedd tri chwarter o'r ymatebwyr (76%) yn dweud eu bod yn defnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, yn bennaf gyda theulu a ffrindiau, yn y gymuned leol neu yn y gwaith.



National Eisteddfod

The Centre worked with the National Eisteddfod and the local learners' committee to organise Maes D, the village for Welsh learners, and the Learner of the Year competition.

In 2023, 30 competitors took part in the competition, the highest number ever, 40 years after it was first held. Huge congratulations to the winner, Alison Cairns, to the other three finalists, Roland Davies, Manuela Niemetscheck, and Tom Trevarthen, and to everyone who competed.

Mudiad Meithrin

A new Memorandum of Understanding was announced between Early Years specialists, Mudiad Meithrin, and the Centre. The organisations already work together on projects such as 'Clwb Cwtsh' which offers informal opportunities for parents and carers of small children to start learning Welsh, and the 'Camau' scheme, which provides Learn Welsh training for Early Years practitioners.

The Memorandum formalises the collaboration, creating further opportunities for language acquisition and learning.

Campaign for informal Welsh words

At the Urdd Eisteddfod, the Centre and the Welsh Language Commissioner launched a campaign calling on young people to share the informal Welsh words they use together. The aim was to help highlight the free Learn Welsh courses available to young people, while creating a collection of words and phrases which can be shared in due course in lessons and resources designed for young people.



Learners' voices

Almost 5,000 people (4,673) responded to the 2022-2023 'Have Your Say' questionnaire, the highest number ever. The questionnaire collates learners' opinions about learning, using and enjoying the Welsh language, so that the Centre can continue to refine and strengthen its provision. Here are some of the key findings:

- ▶▶ 99% of the respondents agreed or strongly agreed that they enjoy learning Welsh.
- ▶▶ 99% agreed or strongly agreed that the tutors teach the course effectively.
- ▶▶ 88% said that the digital learning resources on learncymraeg.cymru were good or very good.
- ▶▶ Three quarters of the respondents (76%) said that they use their Welsh outside the classroom, mainly with family and friends, in the local community or at work.





Ystadegau

Cyfnod Data: 1 Awst 2021 - 31 Gorffennaf 2022

Mae data'r rhaglen Dysgu Cymraeg yn cael eu rheoli gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae cronfa ddata ganolog yn casglu gwybodaeth gan bob dysgwr wrth iddynt gofrestru i fynychu cwrs. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys manylion am y dysgwr (e.e. enw, cyfeiriad, dyddiad geni) a'r cwrs (lefel, lleoliad, dwyster y dysgu).

Y data diweddaraf sy ar gael yw'r data ar gyfer y **flwyddyn academaidd 2021-2022**.

Ers y pandemig yn 2020-2022, mae gweithgaredd y sector wedi newid yn sylweddol. Mae mwy o ddewis i ddysgwyr o ran dulliau dysgu ac mae cynlluniau amrywiol yn ffurfio rhan o'r sector, gan gynnwys dysgu cymunedol, dysgu yn y gweithle a chyrsiau i gynulleidfaoedd penodol e.e. teuluoedd. Mae'r data bellach yn adlewyrchu'r holl weithgaredd hyn.

Nifer y dysgwyr unigryw 2021-2022

Mae 'nifer y dysgwyr unigryw' yn cyfrif pob dysgwr unwaith yn unig, faint bynnag o gyrsiau maent wedi eu dilyn yn ystod y flwyddyn.

Mae cynnydd yn niferoedd y dysgwyr flwyddyn ar flwyddyn ers 2017-2018, os eithrir y flwyddyn 2019-2020 ble bu cynnydd sylweddol yn niferoedd y dysgwyr wnaeth droi at y cyrsiau hunan-astudio ar lefel blasu ar ddechrau cyfnod y pandemig.

2017 - 2018	12,680
2018 - 2019	13,260
2019 - 2020	17,505
2020 - 2021	14,965
2021 - 2022	15,260

Nifer y gweithgareddau dysgu 2021-2022

Gall dysgwyr fynychu mwy nag un gweithgaredd dysgu ar lefel neu ddwyster gwahanol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gall dysgwr unigol fynychu cwrs 170 - 259 awr ar lefel Mynediad yn ogystal â chwrs megis Sadwrn Siarad yn ystod yr un cyfnod. Cyfrifir hyn fel dau weithgaredd dysgu.

- ▶▶ Cymerodd dysgwyr 2021-2022 ran mewn 27,345 o weithgareddau dysgu, lleihad o 6% o'i gymharu â 2020-2021.
- ▶▶ Mae'r data yn dangos bod dysgwyr unigol yn parhau i ddysgu yn fwy dwys na'r cyfnod cyn y pandemig yn 2020.

2017 - 2018	19,490
2018 - 2019	20,330
2019 - 2020	30,115
2020 - 2021	29,175
2021 - 2022	27,345

Mae mwy o fanylion ar wefan y Ganolfan. Bydd data 2022-2023 yn cael eu cyhoeddi fis Mawrth 2024.



Statistics

Data Period: 1 August 2021 - 31 July 2022

The data of the Learn Welsh programme is managed by the National Centre for Learning Welsh. A central database collects information from all learners as they register to attend a course. This information includes details about the learner (e.g. name, address, date of birth) and the course (level, location, intensity of learning).

The latest data available is the data for the **2021-2022 academic year**.

Since the pandemic in 2020-2022, activity within the sector has changed significantly. There is more choice for learners in terms of learning methods and various schemes are now part of the sector, including community learning, learning in the workplace and courses for specific audiences e.g. families. The data now reflects all this activity.

Number of unique learners 2021-2022

The 'number of unique learners' counts each learner only once, even if they have followed more than one course during the year.

There is an increase in the number of learners year on year since 2017-2018, if the year 2019-2020 is excluded where there was a significant increase in the number of learners who turned to the self-study courses at taster level at the beginning of the pandemic period.

2017 - 2018	12,680
2018 - 2019	13,260
2019 - 2020	17,505
2020 - 2021	14,965
2021 - 2022	15,260

Number of learning activities 2021-2022

Learners can attend more than one learning activity at a different level or intensity during the year. For example, an individual learner can attend a 170 - 259 hour course at Entry level as well as a course such as 'Sadwrn Siarad' Saturday workshop during the same period. This counts as two learning activities.

- ▶▶ In 2021-2022 learners took part in 27,345 learning activities, a decrease of 6% compared to 2020-2021.
- ▶▶ The data shows that learners continue to learn more intensively than in the period prior to the pandemic in 2020.

2017 - 2018	19,490
2018 - 2019	20,330
2019 - 2020	30,115
2020 - 2021	29,175
2021 - 2022	27,345




More details are available on the Centre's website. The 2022-2023 data will be published in March 2024.

Dysgu: Darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg amrywiol ac o safon uchel

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gweithio'n barhaus i fireinio, teilwra a chyflwyno cyrsiau ac adnoddau newydd, er mwyn hwyluso'r dysgu a denu cynulleidfaedd amrywiol at y Gymraeg.

Teach: Provide a variety of high quality learning opportunities

The National Centre for Learning Welsh is continually working to refine, adapt and introduce new courses and resources, in order to facilitate the learning of Welsh, and to attract different audiences to the language.



Lansio adnoddau Croeso i Bawb

Fis Ionawr, cafodd pecyn adnoddau 'Croeso i Bawb' ei lansio yng Nghanolfan Oasis, Caerdydd. Mae'r pecyn ar gael trwy gyfrwng Wcreineg, Arabeg Syria, Farsi, Pashto, Dari a Chantoneg. Bwriad y pecyn yw cyflwyno'r Gymraeg a Chymru i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg.



Pobl ifanc

Fe barhaodd y Ganolfan i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc, sy'n gallu dilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg am ddim. Mae ystod o opsiynau ar gael, gan gynnwys ymuno â chwrs yn y gymuned, neu ddilyn cwrs penodol ar gyfer pobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn, fe ddatblygodd y Ganolfan adnoddau newydd, a chynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid.



Launch of 'Croeso i Bawb' resources

In January, the 'Croeso i Bawb/Everyone is Welcome' package of resources was launched at the Oasis Centre, Cardiff. The package is available through the medium of Ukrainian, Syrian Arabic, Farsi, Pashto, Dari and Cantonese. The aim is to introduce Wales and the Welsh language to people whose first language is not English, or who do not speak much English.



Young people

The Centre continued to develop its provision for young people, who can access Learn Welsh courses for free. A range of learning options are available, including joining a community-based course, or following a specific course for young people. During the year, the Centre developed new resources and held training sessions for tutors.



Dysgu atodol

Gweithiodd y Ganolfan gyda Lirica, sef ap dysgu ieithoedd trwy wrando ar gerddoriaeth boblogaidd, i greu fersiwn Cymraeg. Dewiswyd 30 o ganeuon Cymraeg ar gyfer yr ap, ac mae tîm o'r Ganolfan wedi bod wrthi'n cynllunio gwersi ac ymarferion, mewn cydweithrediad â chwmni PYST. Bydd yr adnodd newydd yma yn cael ei gyflwyno i ddysgwyr yn ystod 2023-2024.

Gwnaeth y Ganolfan barhau i weithio gyda Duolingo i gynnal cynnwys y cwrs Cymraeg. Cynhaliodd y Ganolfan sesiynau sgwrsio misol ar gyfer dysgwyr Duolingo trwy gyfrwng Zoom.

Ers Mehefin 2020, mae'r Ganolfan wedi gweithio'n agos gyda SaySomethingInWelsh (SSIW) er mwyn ychwanegu at y dewis o adnoddau i gefnogi'n dysgwyr. Fel rhan o'r cydweithio hwnnw, mae cynnig arbennig yn cael ei roi i ddysgwyr y Ganolfan i gael mynediad at adnoddau SSIW.



Additional learning

The Centre worked with Lirica, a language learning app using popular music, to develop a Welsh language edition. 30 Welsh songs were chosen for the app, and a team from the Centre has been designing lessons and exercises, working with PYST. This new resource will be introduced to learners during 2023-2024.

The Centre continued to work with Duolingo to maintain the app's Welsh course content, and held monthly conversation groups for Duolingo learners via Zoom.

Since June 2020, the Centre has worked closely with SaySomethingInWelsh (SSIW) in order to add to the choice of resources available to our learners. As part of this collaboration, a special offer is made to the Centre's learners to access SSIW's resources.



Dysgwyr yn mwynhau Cwrs Cymraeg i'r Teulu Llangrannog, a Chwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.
Learners enjoying the Welsh for the Family Weekend in Llangrannog, and the Learn Welsh Cardiff Summer Course.





Datblygu'r gweithlu Dysgu Cymraeg

Academi

Cartref ar-lein i diwtoriaid ydy Academi, lle mae'n bosib cyrchu pob math o hyfforddiant, ar ffurf fideos, canllawiau a chyflwyniadau. Mae'n tiwtoriaid yn gallu archebu lle ar gyrsiau hyfforddi cenedlaethol a chadw cofnod o'r hyfforddiant hwnnw.

Tiwtoriaid Yfory

Fis Gorffennaf, daeth criw brwdfrydig o bobl ifanc i Gaerdydd i dreulio pythefnos ar gwrs hyfforddi Tiwtoriaid Yfory y Ganolfan. Cawsant gyfle i arsylwi dosbarthiadau cwrs haf Dysgu Cymraeg Caerdydd, a chafwyd siaradwyr i'w hysbrydoli a dangos yr holl gyfleoedd sydd ar gael yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Fel rhan o'r cynllun, roedd cyfle i bobl ifanc arsylwi gwersi Cymraeg mewn ysgolion uwchradd hefyd. Diolch i Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am eu cydweithrediad, a dymuniadau gorau i'r dyfodol i'r criw.



Addysg Oedolion

Gweithiodd y Ganolfan gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i hyrwyddo Wythnos Addysg Oedolion a dathlu llwyddiannau dysgwyr a thiwtoriaid yn y gwobrau Ysbrydoli! blynyddol.



Developing the Learn Welsh workforce

Academi

Academi is an online hub where tutors can access different training, whether videos, presentations or guidelines. Tutors can also sign up to national training courses and keep track of their training.

Tutors of Tomorrow

In July, a group of enthusiastic, young people spent two weeks following the Centre's 'Tiwtoriaid Yfory/Tutors of Tomorrow' training course in Cardiff. Participants observed lessons on Learn Welsh Cardiff's summer course, and numerous guest speakers introduced them to opportunities to work in the education workforce in Wales. As part of the scheme, participants were also able to observe Welsh classes in secondary schools. Many thanks to Learn Welsh Cardiff and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, and best wishes to the young people for the future.



Adult Education

The Centre worked with the Learning and Work Institute to promote Adult Learners' Week and to celebrate the successes of learners and tutors at the annual Inspire! awards.



Lansiad adnoddau 'Croeso i Bawb'. Launch of the 'Croeso i Bawb/Everyone is Welcome' resources.




Criw o diwtoriaid ar gwrs hyfforddi gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin. Tutors on a training course with Learn Welsh North West.

Defnyddio: Cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd

Rhan hollbwysig o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw creu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, ac mae amryw o gynlluniau ar waith i'r perwyl hynny.

Use: Support the use of Welsh by learners in their everyday lives

One of the key aims of the National Centre for Learning Welsh is to create opportunities for learners to use their Welsh skills, and a number of schemes are in place to support this work.



Cymraeg Gwaith

Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith wedi ehangu eto dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cynllun yn cynnig darpariaeth hyblyg, gan gynnwys dosbarthiadau dysgu dwys, cyrsiau codi hyder gan Nant Gwrtheyrn, rhaglenni hunan-astudio ar-lein, a gwasanaeth 'Gwybodaeth i Gyflogwyr', gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru.

Gwnaeth mwy o gyflogwyr fanteisio ar y cynllun, gan gynnwys asiantaethau Llywodraeth Prydain, y sector gweithgynhyrchu, sector cyhoeddus Cymru, y trydydd sector ac elusennau. Fe weithiodd y Ganolfan gyda nifer o bartneriaid, hefyd, i deilwra cyrsiau ac adnoddau, gan gynnwys Cymdeithas Bêl-droed Cymru, a Chymdeithas Chwaraeon Cymru.



Cymraeg Gwaith - Work Welsh

The Work Welsh scheme has grown again over the past year. The scheme offers flexible learning options, including intensive classes, confidence-building courses held by Nant Gwrtheyrn, online self-study programmes and an 'Information for Employers' service, all with the aim of increasing the use of Welsh in workplaces across Wales.

More employers took advantage of the scheme, including UK Government agencies, the manufacturing sector, the public sector in Wales, the third sector and charities. The Centre worked with a number of partners to tailor courses and resources, including the Football Association of Wales (FAW) and Welsh Sports Association.

Mae'r Ganolfan wedi datblygu rhaglen benodol ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar. Cyflwynwyd cyrsiau newydd sy'n golygu bod cyfres lawn ar gael ar bob lefel, a hynny mewn partneriaeth gyda CWLWM (Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, National Day Nurseries Association (NDNA Cymru) a PACEY).

Fe weithiodd y Ganolfan mewn partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu'r un cynnig ar gyfer y sector Gofal.

Cynhaliwyd prosiect 'Codi Hyder' gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda, gyda thiwtor yn cael ei leoli gyda'r Bwrdd i gefnogi siaradwyr di-hyder i gryfhau eu sgiliau, a magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Gweithiodd y Ganolfan gyda chwech o awdurdodau lleol, hefyd, gan leoli tiwtoriaid gyda'r cyflogwyr i gynnal ystod o hyfforddiant Dysgu Cymraeg.

Mae cyfres o gyrsiau hunan-astudio byrion, wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol feysydd yn cael eu cynnig. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd nifer o gyrsiau newydd, gan gynnwys dau gwrs ar gyfer Cymdeithas Bêl-droed Cymru; un i gefnogwyr a chwaraewyr, a'r llall i reolwyr a gweithwyr. Lluniwyd cyrsiau ar gyfer y sector Cymdeithasau Tai, mewn cydweithrediad ag ADRA, ac ar gyfer y sector prentisiaethau, mewn cydweithrediad ag Educ8.

Undeb Rygbi Cymru

Cyhoeddodd y Ganolfan y byddai'n gweithio gydag Undeb Rygbi Cymru i ddarparu ystod o hyfforddiant Dysgu Cymraeg i'w staff. Bydd y Ganolfan yn darparu cyrsiau wedi'u teilwra, dan arweiniad tiwtor, i dros 100 o aelodau staff sydd wedi dweud eu bod nhw eisieu dysgu neu gryfhau eu Cymraeg.

Yr Urdd

Mae rhaglen hyfforddiant Dysgu Cymraeg wedi ei rhoi ar waith gyda'r Urdd, er mwyn cefnogi nod y mudiad o ddenu gweithlu amrywiol, ac o gysylltu ymhellach â chynulleidfaoedd newydd ar draws Cymru gyfan.

Mae tiwtor yn gweithio gyda'r Adran Chwaraeon, Prentisiaethau a'r Gwersylloedd, i ddarparu gwersi i aelodau staff sydd ddim yn siarad llawer o Gymraeg neu sy'n llai hyderus eu Cymraeg.



Ymweliad Catalwnia

Fis Ebrill, aeth rhai o staff y Ganolfan a'i darparwyr i Gatalwnia i ddysgu mwy am gynllun 'Voluntariat per la Llengua' yr iaith Gatalan, sy'n sail i gynllun Siarad y Ganolfan, sy'nparu dysgwyr ar lefelau Canolradd+ gyda siaradwyr Cymraeg. Roedd staff o'r Llywodraeth a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn rhan o'r ymweliad, a ariannwyd gan gynllun Taith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol yn y maes addysg.

Mae'r 'Voluntariat' ar waith ers 2002, ac mae dros 9,000 o barau yn cwrdd. Mae pwyslais ar ddefnyddio'r iaith yn y gymuned, yn enwedig mewn siopau, ac mae parau yn derbyn cerdyn aelodaeth a chynigion arbennig am gymryd rhan. Yn ystod 2023-2024, bydd y Ganolfan yn datblygu cynlluniau peilot yn sgîl yr ymweliad.

The Centre has tailored a programme for the Early Years sector, and new courses were introduced, with a full suite now available at every learning level. This work was undertaken in partnership with CWLWM (Early Years Wales, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, National Day Nurseries Association (NDNA Cymru) and PACEY).

The Centre worked in partnership with Social Care Wales to develop the same offering for the Care sector.

A confidence-building project was held with Hywel Dda University Health Board, with a tutor based at the Board to support speakers lacking in confidence to strengthen their skills and gain confidence to use their Welsh at work. The Centre worked with six local authorities, placing tutors with employers to deliver a range of Learn Welsh training.

A series of short self-study Work Welsh courses is available, tailored for different sectors. During the year, a number of new courses were introduced, including two courses for the FAW; one for fans and players, and one for managers and staff. Courses were also developed for the Housing Association sector, in partnership with ADRA, and for the apprenticeship sector, in partnership with Educ8.

Welsh Rugby Union

The Centre announced it would work with the Welsh Rugby Union to deliver a range of Learn Welsh training to its staff. The Centre will deliver bespoke, tutor-led courses to over 100 members of staff who've said they would like to learn or improve their Welsh.

Urdd

A new Learn Welsh training programme was introduced at the Urdd, to support the youth organisation's aim of attracting a diverse workforce and of engaging further with new audiences across the whole of Wales.

A tutor works with the Sport, Apprenticeships and Centres Department to provide Welsh lessons to staff members who don't speak much Welsh or who are less confident with their Welsh language skills.



Catalonia visit

In April, team members from the Centre and its course providers visited Catalonia to learn more about the 'Voluntariat per la Llengua' programme for the Catalan language. The Centre's Siarad scheme, which matches learners at Intermediate level and above with Welsh speakers, is based on the 'Voluntariat' programme. Staff members from the Welsh Government and the Welsh Language Commissioner's Office also took part in the visit, which was funded by 'Taith', the Welsh Government international learning exchange programme.

The 'Voluntariat' has been in place since 2002, and over 9,000 pairs meet. The emphasis is on using the language in the community, especially in shops, and pairs receive membership cards and special offers for taking part. During 2023-2024, the Centre will develop pilot projects as a result of the visit.



Cefnogi Dysgwyr

Trefnodd y Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau ystod o ddigwyddiadau er mwyn galluogi dysgwyr i fwynhau defnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn:

Cwrs Cymraeg i'r Teulu Llangrannog

Roedd y cwrs penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog yn llwyddiant, gyda theuluoedd ar draws Cymru wedi mwynhau dysgu a defnyddio eu Cymraeg. Trefnwyd gweithgareddau hwyliog i'r plant gan gynnwys sesiynau gyda Siani Sionc a Martyn Geraint, a rhoddwyd cyfle i'r rhieni a gofawyr gymdeithasu ac ymarfer eu Cymraeg.

Teithiau cerdded

Cynhaliwyd wyth o deithiau cerdded ar gyfer dysgwyr, oedd yn ymweld ag adeiladau nodedig a gerddi enwog, gan gynnwys adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd, a Phortmeirion.

Gŵyl ddarllen Amdani

Fis Mawrth, cynhaliwyd Gŵyl Ddarllen Amdani, sef yr ŵyl flynyddol sy'n dathlu'r gyfres boblogaidd o lyfrau i ddysgwyr, Amdani. Trefnwyd sesiynau rhithiol gydag awduron, cystadleuaeth ysgrifennu stori, a chyhoeddwyd cylchgrawn i ddathlu bod cyfres lyfrau Amdani yn bum mlwydd oed.

BBC Radio Cymru ac S4C

Yn ystod Wythnos Dathlu Dysgu BBC Radio Cymru fis Hydref, rhoddwyd cyfle i ddysgwyr holi rhai o brif gyflwynwyr yr orsaf, Aled Hughes a Kate Crockett, mewn sesiwn rhithiol, byw. Cafodd lleisiau dysgwyr eu clywed ar draws yr amserlen, gyda gwahanol eitemau a chyfweliadau. Mae'r wythnos yn gyfle i dynnu sylw dysgwyr at arlwy Radio Cymru, yn ogystal â chodi proffil y sector Dysgu Cymraeg.

Fe weithiodd y Ganolfan yn gynyddol agos gydag S4C hefyd, er mwyn cefnogi nod y sianel o gael lleisiau a wynebau amrywiol ar draws y gwasanaeth, ac o ddarparu cynnwys addas ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg.



Supporting Learners

The Centre and its course providers held a range of events in order to enable learners to enjoy using their Welsh outside the classroom. Here are some of the year's highlights:

Welsh for the Family Llangrannog course

The weekend course at the Urdd camp in Llangrannog was a success, with families from across Wales taking part. Different activities were held for the children, including sessions with entertainers Siani Sionc and Martyn Geraint, while parents and carers had an opportunity to meet fellow learners and attend language workshops.

Guided walks

Eight guided walks were held for learners, visiting famous buildings and gardens, including the Senedd in Cardiff Bay, and Portmeirion.


Amdani Festival of Reading

In March, the Amdani Festival of Reading was held, an annual event celebrating the popular series of books for Welsh learners, Amdani. Virtual Q&A sessions with authors, a story-writing competition and a digital magazine celebrating the series' fifth anniversary were among the highlights.

BBC Radio Cymru and S4C

During the week-long celebration of learning Welsh - 'Wythnos Dathlu Dysgu' - on BBC Radio Cymru in October, learners had an opportunity to quiz some of the station's best-known presenters, Aled Hughes and Kate Crockett, in a live virtual session. Learners' voices were heard across the schedule, with a range of items and programmes. The week is an opportunity to draw learners' attention to Radio Cymru's programming, as well as raise the profile of the Learn Welsh sector.

The Centre also worked increasingly closer with S4C, in order to support the channel's aim of having a variety of voices and faces across the service, and of providing content suitable for people who are learning Welsh.



Cynllunio Strategol

Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yw'r Hybarch Randolph Thomas, Maria Stedman, a Geraint Roberts. Gadawodd Eifion Griffiths ei rôl fel cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn.

Mae agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol y Ganolfan yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd yn sicrhau rheolaeth ariannol briodol a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson. Mae'r Bwrdd hefyd yn sicrhau perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion corfforaethol.

O dan Erthyglau Cymdeithasu y Cwmni, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan. Swyddogaeth y Bwrdd Ymgynghorol yw sicrhau bod y Ganolfan yn:

- ▶▶ cyflawni ei hamcanion strategol o ran y sector Dysgu Cymraeg trwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr.
- ▶▶ cyflenwi gwasanaethau i'r sector Dysgu Cymraeg yn unol â'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru.
- ▶▶ cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes.

Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol ar ddiwedd Gorffennaf 2023 oedd:

Enw

Owain Gruffydd

Tim Hartley

Alan Jones

Alun Jones (Cadeirydd)

Steve Morris

Nia Parry

Pwyllgor Craffu

Yn ystod 2022-2023, yn dilyn argymhelliad adolygiad cyflym Llywodraeth Cymru o'r Ganolfan, penderfynwyd addasu strwythur llywodraethiant y Ganolfan. Diddymwyd y Pwyllgor Craffu blaenorol, a chynyddwyd aelodaeth y Bwrdd Ymgynghorol. Bydd penodiadau ychwanegol i'r Bwrdd Ymgynghorol yn ystod 2023-2024.

Fframweithiau ansawdd

Mae'r Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau yn gweithredu fframweithiau ansawdd fel modd o anelu at ragoriaeth. Mae'r fframweithiau yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gwella ansawdd yn y pum maes a arolygir gan Estyn, sef:

- ▶▶ Safonau
- ▶▶ Lles ac agweddau at ddysgu
- ▶▶ Addysgu a phrofiadau dysgu
- ▶▶ Gofal, cymorth ac arweiniad
- ▶▶ Arweinyddiaeth a rheolaeth

Estyn

Mae Estyn yn arolygu gwaith y Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau. Cynhaliwyd arolygiad o'r darparwyr canlynol yn ystod y flwyddyn:

- ▶▶ Dysgu Cymraeg Y Fro
- ▶▶ Dysgu Cymraeg Caerdydd

Strategic Planning

Governance

The National Centre for Learning Welsh is a Company Limited by guarantee without share capital. The only member of the company under the Articles of Association is the University of Wales Trinity Saint David. Members of the Board of Directors are the Venerable Randolph Thomas, Maria Stedman and Geraint Roberts. Eifion Griffiths left his role as director during the year.

The corporate and constitutional aspects of the Centre are the responsibility of the Board of Directors. The Board ensures appropriate and transparent financial management, together with robust and consistent risk management. The Board also ensures performance against the main corporate indicators.

Under the Company's Articles of Association, the Centre's Advisory Board was established. The role of the Advisory Board is to ensure that the Centre:

- ▶▶ meets its strategic objectives for the Learn Welsh sector by transforming the provision for learners.
- ▶▶ delivers services to the Learn Welsh sector in line with the vision and priorities presented in the successful bid to the Welsh Government.

- ▶▶ agrees national targets for the sector.

The Advisory Board's members at the end of July 2023 were:

Name

Owain Gruffydd

Tim Hartley

Alan Jones

Alun Jones (Chair)

Steve Morris

Nia Parry

Scrutiny Committee

During 2022-2023, the Centre's governance structure was amended following a recommendation made in the Welsh Government's rapid review of the Centre. The former Scrutiny Committee was dissolved, and the membership of the Advisory Board was increased. Additional appointments will be made to the Advisory Board during 2023-2024.

Quality frameworks

The Centre and its course providers operate quality frameworks in order to aim for excellence. The frameworks include indicators for improving quality in the five areas inspected by Estyn:

- ▶▶ Standards
- ▶▶ Wellbeing and attitudes to learning
- ▶▶ Teaching and learning experiences
- ▶▶ Care, support and guidance
- ▶▶ Leadership and management

Estyn

Estyn inspects the Centre's work and that of its providers. Inspections of the following providers were conducted during the year:

- ▶▶ Learn Welsh Vale of Glamorgan
- ▶▶ Learn Welsh Cardiff

Staffio



O dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae'r Ganolfan wedi'i rhannu'n bedair cyfarwyddiaeth. Y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu sy'n gyfrifol am agweddau cwricwlaidd; y Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r

sector, y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu sy'n gyfrifol am gyllid a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys Cymraeg Gwaith; a'r Gyfarwyddiaeth Strategol sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed.

Staffing

Led by the Chief Executive, the Centre is divided into four directorates. The Teaching and Learning Directorate is responsible for curricular aspects, the Marketing and Communications Directorate is responsible for promoting the sector, the Planning and Development

Directorate is responsible for finance and performance management systems and various projects, including Work Welsh, and the Strategy Directorate is responsible for the provision for young people between 16-25 years old.



Niferoedd staff y Ganolfan

Nifer y staff rhan amser:

Nifer y staff llawn amser:



Cyfanswm: 21

The Centre's staff numbers

Number of part-time staff:

Number of full-time staff:



Total: 21

Cyllideb

Crynodeb o gyllideb pob darparwr cyrsiau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022-2023:

Darparwr Dysgu Cymraeg	Cyflenwr	Cyfanswm
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	£858,110.00
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	£989,347.00
Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	£1,185,116.00
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	£1,054,308.00
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	£1,430,539.00
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	£1,152,387.00
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	£996,067.00
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	£170,000.00
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	£347,252.00
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	£173,396.00
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Sir Bro Morgannwg	£303,478.00
Darpariaeth pobl ifanc 16-25 oed a darpariaeth y gweithlu addysg		£150,000.00
CYFANSWM		£8,810,000.00

Mae cyfrifon llawn y Ganolfan i'w gweld ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.

Cysylltwch â ni

**Y Ganolfan Dysgu
Cymraeg Genedlaethol**
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Ffôn: 0300 3234324
swyddfa@dysgucymraeg.cymru
dysgucymraeg.cymru



@learncymraeg



Dysgu Cymraeg - learnwelsh

Funding

Funding summary for each course provider for the academic year 2022-2023:

Learn Welsh Provider	Organisation	Total
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	£858,110.00
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	£989,347.00
Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire	Aberystwyth University	£1,185,116.00
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	£1,054,308.00
Learn Welsh North West	Bangor University	£1,430,539.00
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	£1,152,387.00
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	£996,067.00
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Welsh Language Heritage Centre	£170,000.00
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	£347,252.00
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	£173,396.00
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan Council	£303,478.00
Provision for young people aged 16-25 and the education workforce		£150,000.00
Total		£8,810,000.00

The Centre's full accounts can be seen on the Companies House website.

Contact us

**National Centre
for Learning Welsh**
Y Llwyfan
College Road
Carmarthen
SA31 3EQ


Tel: 0300 3234324
office@learnwelsh.cymru
learnwelsh.cymru



@learncymraeg



Dysgu Cymraeg - learnwelsh



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

**Dysgu
Learn**